Gwaed Gwych Yn achub y dydd!

Gwasanaeth Gwaed Cymru

1

Helo Gwaed Gwych

ydw i ac rwy'n Archarwr arbennig iawn!
Beth am glywed stori...

2

Un tro, roedd plentyn yn teimlo'n sâl. Dywedodd Gwaed Gwych, "Alla i fod yn ffrind i ti? Galla i wneud i ti deimlo'n well." Dywedodd y plentyn, "Fydde hynny'n neis iawn, diolch." Roedd ffrind newydd Gwaed Gwych yn teimlo bach yn

wibli-wobli

fel balŵn heb wynt. Dywedodd y doctor, "Efallai dy fod yn teimlo fel hyn am nad oes gen ti ddigon o waed."

Gwaed yw'r peth coch gludiog sy'n dod allan pan fyddi di'n torri dy hun. Mae angen llawer o waed i helpu'r corff i weithio. Mae llawer o wahanol bethau yn dy waed –

mae rhai yn *goch*

a rhai yn *felyn*

3

Pan na fydd gen ti ddigon o waed, gall Gwaed Gwych

helpu

drwy roi mwy o waed i ti a gwneud i ti deimlo'n well. Ry'n ni'n galw hyn yn

drallwysiad.

Roedd ffrind Gwaed Gwych yn poeni ychydig am gael trallwysiad a gofynnodd i Gwaed Gwych beth fyddai'n digwydd ac a fyddai'n boenus?

Dywedodd Gwaed Gwych,

"Bydd popeth yn iawn.

Bydd y Nyrs neu'r Doctor yn rhoi eli arbennig ar dy law fel na fydd yn rhy boenus pan fyddan nhw'n rhoi'r tiwb bach i mewn.

4

Bydd y Nyrs yn defnyddio'r tiwb bach i adael i'r gwaed fynd i mewn i'r corff. Efallai bydd dy fraich yn teimlo bach yn rhyfedd, ond mae hynny'n iawn.

Efallai bydd yn cymryd amser i'r gwaed fynd i mewn i'r corff, felly efallai byddet ti'n hoffi cwtsio dy dedi pan fydd hyn yn digwydd."

Nid oedd ffrind Gwaed Gwych yn poeni rhagor.

5



Rhoddodd y nyrs y tiwb bach i mewn i law ffrind Gwaed Gwych a dywedodd, "Byddai'n aros yn agos, os byddi di'n teimlo'n ych a fi pan fydd y gwaed yn mynd i mewn, galwa fi a byddai'n gwneud i ti

deimlo'n well."

Roedd ffrind Gwaed Gwych yn ddewr iawn ac roedd yn teimlo'n llawer gwell ar ôl i'r gwaed fynd i mewn i gyd.

Roedd Gwaed Gwych yn hapus iawn ei fod wedi helpu a hedfanodd i ffwrdd i helpu rhywun arall. Ond paid â phoeni – os byddi di ei angen eto, ni fydd yn bell i ffwrdd.

I gael copiau ychwanegol o'r daflen hon ynghyd ag unrhyw wybodaeth bellach ffoniwch Gwasanaeth Gwaed Cymru ar 01443 622126.

NHS Choices
www.nhs.uk/Conditions/Blood-transfusion/Pages/Introduction.aspx

UK Transfusion Services
www.transfusionguidelines.org.uk/index.aspx

Gwasanaeth Gwaed Cymru
www.gwaedcymru.org.uk

6